Cofnodion Pwyllgor Cyllid Cyngor Tref Llandeilo a gynhaliwyd ar nos Fercher y 9fed o Dachwedd 2011 yn Neuadd y Sir, Llandeilo am 8.00yh.

Presennol : Y Maer, y Cyng. Julia Jones, y Cyng. Colin Jenkins (Cadeirydd), y Cyng. Ros Bellamy, y Cyng. Edward Thomas, y Cyng. Charlotte Leadbeater, y Cyng. Roy Davies

Mr Roger Phillips (Clerc y Dref)
Mr Christopher Plummer (Swyddog Cyllid)
Mr Des Davies (Swyddog Technegol)

Ymddiheuriadau: Y Cyng. Christopher Parish, y Cyng. David Williams

Cof 210/ Tach / 11 Cyfrifon i'w Talu

Argraffwyr Lewis (rhaglenni tân gwyllt)	£ 690.00
Westward Energy Services (atgyweirio gollyngiad yn Neuadd y Sir)	£ 1,135.20
CGGC (Gwein. mis Tachwedd)	£ 24.30
CGGC (Cyflogres Tachwedd- ychwanegol)	£ 36.88

Argymhellwyd bod yr uchod yn cael eu talu. Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Byddai'r rhain yn cael eu talu trwy BACS. Roedd pawb o blaid.

Cof 211/ Tach / 11 Incwm a dderbyniwyd ym mis Hydref hyd yn hyn 2011

Arian wrth y giât yn y Digwyddiad Tân Gwyllt	£ 3,531.20
Llog y Banc	£ 5.92

Cof 212/ Tach / 11 Balansau'r Cyfrifon

Cyfrif Cyfredol CTLl (fel ar 09.11.11)	£ 24,361.58
Cyfrif Cadw CTLl (fel ar 09.11.11)	£ 10,517.81
Cyfrif Maer CTLl (fel ar 20.10.11)	£ 1,590.90
Bond Adnau Llog Uchel CTLl	£ 20,000.00

Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas bod y Bond Adnau Llog Uchel yn cael ei fuddsoddi am 3 mis arall, nes diwedd Chwefror. Roedd pawb o blaid.

Cof 213/ Tach / 11 Materion Ariannol Eraill

1. Rheolaethau Ariannol Mewnol.
   Argymhellodd y Swyddog Cyllid bod y datganiadau canlynol yn cael eu cynnwys yn y Rheoliadau Ariannol, fel modd o esbonio'r rheolaethau Bancio Ar-lein:-

i) Bydd y prif ddefnyddiwr dynodedig (Swyddog Cyllid) yn sicrhau bod gan lofnodwyr y cyfrif cyfredol fynediad darllen i'r cyfrif hwnnw o leiaf, neu pa bynnag reolaethau eraill a gytunwyd gan y Cyngor.

ii) Bydd y prif ddefnyddiwr yn rheoli caniatâd mynediad, yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor, a bydd yn sicrhau bod pob caniatâd a phob cyfrinair yn cael eu storio mewn amlen dan sêl yn y sêff. Dylid newid cyfrineiriau bob mis, neu fel y cytunwyd.

iii) Mae'n rhaid i bob taliad y cytunwyd gan y Cyngor i gael eu gwneud trwy drosglwyddiad BACS i gael eu nodi yn y cofnodion. Dylai'r fath daliadau gael eu gwneud gan y prif ddefnyddiwr sydd â phob caniatâd angenrheidiol i ddefnyddio'r cyfleusterau bancio Ar-lein i gyflawni'r fath daliadau.

iv) Bydd datganiadau ar-lein a/neu gofnodion gweithgarwch yn cael eu craffu'n gyson, yn ôl cyfarwyddyd y Cyngor, neu eu gwirio pob chwarter o leiaf, fel bod trafodion BACS yn cael eu cysoni gyda'r taliadau BACS a gytunwyd.

v) Bydd y Cyngor yn gwneud cofnod o, yn cyflawni ac yn monitro, unrhyw weithred o drosglwyddo rhwng cyfrifon trwy gyfrwng bancio ar-lein.

Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y Rheolaethau Mewnol yma'n cael eu hargymell i'r Cyngor Llawn, i'w cynnwys yn y Rheoliadau Ariannol, adran 10.7. Eiliwyd gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.

2. Rhagolwg Cyllideb Tair Blynedd.
   Penderfynwyd gofyn am i £1,000 i gael ei neilltuo ar gyfer cychwyn y prosiect 'Croeso i Gerddwyr'. Ni wnaethpwyd unrhyw newidiadau eraill i'r rhagolwg cyn y cyfarfod ar y Gyllideb ym mis Rhagfyr.
3. Y Cyng. Ros Bellamy ar ran yr Is-grŵp Gweithdrefnau, fe gyflwynodd ddogfen bolisi ddrafft ar Lwfans Treuliau'r Maer.
   Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gwnaethpwyd rhai mân newidiadau.
   Cynigodd y Cyng. Ros Bellamy bod y polisi hwn, yn cynnwys y newidiadau, yn cael ei argymell i'r Cyngor Llawn yng nghyfarfod y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Edward Thomas. Roedd pawb o blaid.
4. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod y Cyngor yn ad-dalu £30 i Geoffrey Williams, am y swm a anfonodd i gofrestru Llandeilo gyda'r cynllun Croeso i Gerddwyr. Eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Julia Jones. Roedd pawb o blaid.
5. Cytunwyd ar y ffioedd hyfforddi canlynol ar gyfer y Cynghorwyr
   i) Cwrs Cyfarfodydd Cyngor yng Nghastell-nedd ar y 15fed o Dachwedd 2011 ar gyfer y Maer, y Dirprwy Faer a'r Clerc, am bris o £25 y pen.
   ii) Cynnwys Cymunedau yng Nghaerfyrddin ar y 5ed o Ragfyr, ar gyfer y Cyng. Christopher Parish, am bris o £25.

Cof 214 / Tach /11 Gohebiaeth yn ymwneud â Chyllid

1. Adroddodd y Clerc bod Ysgol Tregib wedi gofyn am y £300 a addawyd gan y Cyngor ar gyfer gwobr y Gymuned. Byddai'r Clerc yn anfon siec ac yn cynnwys cais am fanylion y derbynyddion gyda theitlau'r prosiectau, yn y llythyr. Cynigwyd gan y Cyng. Ros Bellamy ac eiliwyd gan y Cyng. Roy Davies. Roedd pawb o blaid.
2. Y Lleng Brydeinig Frenhinol. Gwasanaeth Coffa. Cynigodd y Cyng. Edward Thomas bod £50 yn cael ei roi fel rhodd mewn perthynas â'r dorch ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Charlotte Leadbeater. Roedd pawb o blaid.

Cof 215 / Tach /11 Doedd dim Goblygiadau Ariannol i Adroddiad y Swyddog Technegol

Cof 216/ Tach /11 Doedd dim eitemau arall o fusnes yr oedd y Cadeirydd, oherwydd amgylchiadau arbennig, yn dymuno eu hystyried fel mater o frys, yn unol ag adran 100B(4)(B) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.10yh.